Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 18 Chwefror 2025

Eitem ar yr Agenda	Pwnc	Penderfyniad
1	YMDDIHEURIADAU	Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.
2	DATGAN CYSYLLTIADAU	Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiadau.
3	MATERION BRYS	Ni chodwyd unrhyw faterion brys.
4	COFNODION	***PENDERFYNWYD*** *derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Ionawr 2025 a chadarnhau eu bod yn gywir.*
5	DATGANIAD INTERIM CYNGOR SIR DDINBYCH YNGHYLCH Y DARPAR BARC CENEDLAETHOL YNG NGOGLEDD DDWYRAIN CYMRU	***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet –* *(a) yn cymeradwyo'r datganiad interim fel y'i cyflwynwyd yn Atodiad 1 i'r adroddiad, ac* *(b) yn cymeradwyo'r datganiad interim fel ymateb yr adroddiad i ymgynghoriad Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch y bwriad i greu Parc Cenedlaethol.*
6	LLYTHYR BLYNYDDOL OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU 2023/24	***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet –* *(a) wedi ystyried y data yn y llythyr, ynghyd â data'r Cyngor, i ddeall mwy am berfformiad ar gwynion, gan gynnwys unrhyw batrymau neu dueddiadau a chydymffurfiaeth y sefydliad ag argymhellion yr Ombwdsmon, ac* *(b) yn cytuno y dylai unrhyw ystyriaethau a chamau a gynigiwyd o ganlyniad i Lythyr Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru gael eu hadrodd yn ôl i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru cyn gynted â phosib.*
7	DIWEDDARU RHEOLAU'R WEITHDREFN GONTRACTAU	**PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn cydnabod y newidiadau yn Rheolau'r Weithdrefn Gontractau i alluogi parhad y broses gaffael sy'n cydymffurfio ar draws y Cyngor.
8	ASESIAD PERFFORMIAD PANEL	***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet –*

Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 18 Chwefror 2025

Agenda Item No	Topic	Decision
	CYNGOR SIR DDINBYCH – ADRODDIAD AC YMATEB	(a) *yn nodi a chroesawu'r Adroddiad ynghylch yr Asesiad Perfformiad Panel (Atodiad 1),* (b) *wedi adolygu a chymeradwyo'r datganiadau statudol (Adrannau 4.7 a 4.8) yr oedd yn ofynnol i'r Cyngor eu gwneud mewn ymateb i'r Adroddiad a'r camau gweithredu'r oedd y Cyngor yn bwriadu eu cymryd fel y'u nodwyd yn y 'Cynllun Gweithredu' (Atodiad 2) ac wrth wneud hynny, wedi adolygu a chymeradwyo'r ymateb i'r argymhellion ar gyfer newid a wnaeth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 22 Ionawr (Atodiad 2 i'r adroddiad), ac* (c) *yn argymell bod y Cyngor yn cymeradwyo'r Datganiadau a'r Cynllun Gweithredu ar 20 Chwefror 2025.*
9	CYLLIDEB Y CYNGOR 2025/26	***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet –* (a) *yn cefnogi'r cynigion a amlinellwyd yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2025/26 – 2027/28 (Atodiad 1 i'r adroddiad), y manylwyd yn eu cylch yn Adran 4 o'r adroddiad, er mwyn gosod cyllideb ar gyfer 2025/26,* (b) *yn cymeradwyo'r cynnydd cyfartalog o 5.29% yn Nhreth y Cyngor ar gyfer gwasanaethau'r Cyngor ynghyd ag 0.71% yn ychwanegol ar gyfer y cynnydd yn ardoll Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru; roedd hynny'n hafal i gynnydd cyffredinol arfaethedig o 6.00% (paragraff 4.5 o'r adroddiad),* (c) *yn dirprwyo awdurdod i'r Pennaeth Cyllid ac Archwilio, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Arweiniol Cyllid, addasu'r modd y defnyddid arian wrth gefn oedd wedi'i gynnwys yng nghynigion y gyllideb o hyd at £500,000 pe byddai gwahaniaeth rhwng ffigyrau'r setliad drafft a'r setliad terfynol, er mwyn gallu gosod Treth y Cyngor yn amserol,*

Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 18 Chwefror 2025

Agenda Item No	Topic	Decision
		(ch) o blaid y strategaeth i ddefnyddio arian wrth gefn fel y nodwyd ym mharagraff 4.6 o'r adroddiad, ac *(d) yn cadarnhau ei fod wedi darllen yr Asesiad o Effaith ar Les fel y nodwyd yn Adran 7 o'r adroddiad, ei ddeall a'i ystyried.*
10	ADRODDIAD CYLLID	***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet –* *(a) yn nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2024/25 a'r cynnydd yn ôl y strategaeth y cytunwyd arni, ac* *(b) o blaid neilltuo £3.956 miliwn mewn cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd, fel y nodwyd ym mharagraff 4.4 o'r adroddiad.*
11	RHAGLEN WAITH Y CABINET	***PENDERFYNWYD** nodi rhaglen waith y Cabinet.*
12	DYFARNU CYTUNDEB GOFAL CARTREF RHANBARTHOL GOGLEDD CYMRU	***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet –* *(a) yn cymeradwyo derbyn y tendrau a gyflwynwyd gan 97 o gyflenwyr a gwrthod 3 o'r cyflenwyd am y rhesymau a nodwyd yn yr Adroddiad Argymell Dyfarnu Contractau (Atodiad 1 i'r adroddiad), ac* *(b) yn cadarnhau ei fod wedi darllen yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 2 i'r adroddiad), ei ddeall a'i ystyried wrth ddod i benderfyniad.*